❖ Canlyn y Golau

’Rôl oedfa’r hwyr ym Methlehem
A golau’r Gair yn gry’,
Mor groes oedd cael fy hunan
Yn ddall ym mhorth y Tŷ:
Ond yna, wele gyngor
I beidio edrych lawr,
Ond canolbwyntio golwg
Ar olau – i’r Ffordd Fawr.

A hyn heb oedi wneuthum
Yn ostyngedig-hy,
A chael fod golau Bethlem
Yn treiddio’r gaeaf du:
A dyna’n anad undim
’Roes im Nadolig gwyn,
Cael haul y Dydd yn esgyn
A’r Seren Fore ’nghyn.

D. Gerald Jones